Adran Gwaith
a Phensiynau




# Gweithdy Adolygiad Timms Hawdd i'w Ddarllen

## Nodiadau i bobl sy'n rhedeg y gweithdai drwy ddefnyddio hawdd i'w ddarllen






Diolch am redeg y gweithdy hwn.




Dyma rai pethau sydd angen i chi eu gwybod cyn i chi ddechrau.



Gallwch wneud y gweithdy ar-lein neu'n bersonol.




Nid oes rhaid i chi ddefnyddio'r holl sleidiau os nad oes angen i chi wneud hynny.




Mae hyd y gweithdy yn dibynnu ar faint o sleidiau rydych am eu defnyddio. Gall fod rhwng 45 munud a 2 awr a hanner.



Rhaid i chi ofyn i bawb a ydynt yn cytuno i ddod i'r gweithdy.



Ac os ydynt yn cytuno i chi rannu'r hyn maen nhw'n ei ddweud yn y gweithdy gyda'r Adolygiad Timms.

## Sut i ddweud wrthym beth ddywedodd pobl



Pan fyddwch wedi cynnal y gweithdy mae angen i chi ddweud wrthym beth ddywedodd pobl.



A dywedwch ychydig wrthym am y bobl a ddaeth i'ch gweithdy.



Mae gennym ffurflen y gallwch ei rhoi i bobl sy'n dod i'ch gweithdy.
Mae'n gofyn rhai cwestiynau iddynt amdanynt eu hunain.



Ac mae gennym ffurflen arall i chi ei llenwi. Gallwch ei defnyddio i ddweud atebion pobl wrthym.




Rhaid i chi anfon yr atebion yn ôl atom erbyn **5pm ddydd Gwener 17 Gorffennaf 2026.**




I gael y ffurflenni gallwch anfon e-bost atom: **timmsreview.workshopinabox@dwp.gov.uk**




Pan fyddwch yn dangos y sleidiau hawdd i'w ddarllen i bobl, byddant yn gweld rhai geiriau anodd.



Rhaid i chi ddweud wrth bobl yn y gweithdy beth yw ystyr y geiriau anodd.



Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthych sut i esbonio'r geiriau anodd hyn.




Mae yna hefyd rai nodiadau ychwanegol i'ch helpu i esbonio pethau eraill yn y sleidiau.




Dyma bethau sy'n rhaid i chi esbonio ar sleid 2:




Mae **budd-daliadau** yn golygu arian gan y Llywodraeth i bobl sydd angen help i dalu am bethau.

Gallai hyn fod oherwydd eu bod yn sâl, yn anabl, neu nad oes ganddynt swydd.



Mae **adolygiad** yn golygu edrych ar rywbeth i ddarganfod mwy amdano.



Syr Stephen Timms sy'n arwain yr adolygiad. Dyna pam ei fod yn cael ei alw'n **Adolygiad Timms.**




Dyma bethau sydd angen i chi eu hesbonio ar sleid 6:



Mae **budd-daliadau iechyd ac anabledd** yn arian ychwanegol y gall rhai pobl ei gael gan y Llywodraeth.



Mae'r arian i helpu i dalu am bethau ychwanegol sydd eu hangen arnoch i'ch helpu oherwydd eich anabledd neu **gyflwr iechyd**.



Mae **cyflwr iechyd** yn broblem sy'n effeithio ar eich corff. Pethau fel cael cefn gwael, poen, problemau gyda'ch calon neu anadlu.



Neu gallai fod yn gysylltiedig â'ch **iechyd meddwl**. Mae **iechyd meddwl** yn bethau fel eich meddyliau, eich teimladau a sut rydych yn ymdopi â bywyd bob dydd.




Cyflwr iechyd hirdymor yw cyflwr iechyd sy'n para am 12 mis neu fwy.




**Costau ychwanegol** yw pethau sydd eu hangen ar bobl i'w helpu. Pethau fel lifft grisiau i'w helpu i fynd i fyny'r grisiau.




Neu dalu i gael y gwres ymlaen yn amlach yn eu cartrefi.

## Sleid 7: Beth yw'r Adolygiad Timms




Dyma bethau y mae angen i chi eu hesbonio ar sleid 7:



Mae **annibynnol** yn golygu gwneud rhai pethau ar eich pen eich hun a rhai pethau gyda rhywfaint o gymorth.




Dyma bethau y mae angen i chi eu hesbonio ar sleid 8:



Mae'n wirioneddol bwysig i'r Llywodraeth gynnwys pobl anabl a phobl â chyflwr iechyd yn yr adolygiad.



Mae cyd-gynhyrchu yn ffordd o gydweithio â phobl.



Mae'n golygu y bydd pobl sy'n cael eu heffeithio gan PIP yn helpu i wneud penderfyniadau amdano.



Dyma'r darn mwyaf o gyd-gynhyrchu y mae'r Llywodraeth erioed wedi'i wneud.

# Sleid 10: Pwy sy'n arwain yr Adolygiad Timms




Dyma bethau y mae angen i chi eu hesbonio ar sleid 10:



Mae 15 o bobl yn y grŵp llywio.



Mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn y grŵp llywio yn anabl neu mae ganddynt gyflwr iechyd hirdymor.

Neu maen nhw'n gwybod llawer am iechyd, anabledd a budd-daliadau.



Y **cyd-gadeiryddion** yw'r bobl sy'n gyfrifol am gyfarfodydd ynghylch yr Adolygiad Timms.




## Sleid 15: Cwestiynau i chi

Gallech ddweud y pethau hyn i helpu pobl i feddwl am sut i ateb y cwestiynau.




### Cwestiwn 1: Beth ydych yn defnyddio PIP ar ei gyfer?

Meddyliwch am yr hyn rydych yn gwario'r arian o PIP arno.




Neu pa bethau eraill mae PIP yn eich helpu i'w cael. Pethau fel Bathodyn Glas.



Os na chewch PIP, meddyliwch am beth fyddech yn gwario'r arian arno.



### Cwestiwn 2: Pam mae PIP yn bwysig i chi?

Meddyliwch am yr hyn y mae PIP yn eich helpu i'w wneud.



Gallech roi enghreifftiau i'r grŵp o bethau ychwanegol y gallai fod yn rhaid i bobl dalu amdanynt.



Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am bethau fel lifft grisiau i'ch helpu i fynd i fyny'r grisiau.



Neu dalu i gael y gwres ymlaen yn amlach yn eich cartref.



Mae'n rhaid i rai pobl dalu hyd yn oed yn fwy. Efallai eu bod nhw'n byw mewn lle nad yw'n hawdd cael bws.




Efallai y bydd yn rhaid iddynt wario mwy o arian o PIP ar betrol i'w helpu i deithio o gwmpas.




Gallech ddweud y pethau hyn i helpu pobl i feddwl am sut i ateb cwestiwn 5.




**Cwestiwn 5: Beth ydych yn meddwl y dylai PIP helpu pobl i'w wneud?**




Meddyliwch am beth y dylid defnyddio PIP ar ei gyfer yn y dyfodol.



A sut mae'n helpu pobl yn eu bywydau bob dydd.




## Sleid 22: Sut mae gofyn am PIP fel arfer yn gweithio

Dyma bethau y mae angen i chi eu hesbonio ar sleidiau 22 a 23:




Yr **Adran Gwaith a Phensiynau yw DWP**. Nhw yw'r rhan o'r Llywodraeth sy'n gyfrifol am fudd-daliadau. Maen nhw'n cael ei alw'n **DWP** yn fyr.

## Sleid 23




Mae'r **asesiad** yn wiriad i weld a all person wneud pethau bob dydd fel coginio, golchi a dweud wrth bobl beth maen nhw ei eisiau neu beth maen nhw'n ei deimlo.



Os bydd DWP yn dweud na i PIP, efallai y byddwch yn **apelio**.
**Apêl** yw gofyn i DWP ailystyried eu penderfyniad.




Gallech ddweud y pethau hyn i helpu pobl i feddwl am sut i ateb cwestiwn 12.



**Cwestiwn 12: Beth fyddech yn newid am y ffordd y mae'n rhaid i bobl ofyn am PIP?**

Efallai hoffech feddwl am bethau sy'n ei gwneud hi'n anodd i bobl ofyn am PIP.



A beth fyddai'n ei gwneud hi'n haws i bobl ofyn amdano.



Pethau fel help i ddefnyddio cyfrifiaduron i lenwi ffurflenni.



Neu gael rhywun i'ch cefnogi yn yr asesiad.




Gallech ddweud y pethau hyn i helpu pobl i feddwl am sut i ateb cwestiwn 15.




**Cwestiwn 15: I ba raddau ydych yn cytuno bod yr asesiad PIP yn deg?**




Mae hyn yn golygu a yw'r asesiad PIP yn edrych ar y pethau cywir.



Ac os gwneir penderfyniadau yn yr un ffordd i bawb pan fyddant yn gofyn am fudd-daliadau.




Gallech ddweud y pethau hyn
i helpu pobl i feddwl am sut i ateb
cwestiwn 17.




**Cwestiwn 17: Beth ddylai'r asesiad PIP edrych arno yn y dyfodol?**




Dylech feddwl am sut allwn wneud
yr asesiad PIP yn haws ac yn decach
i bawb.




Gallech feddwl am ba gwestiynau
y dylid eu gofyn i bobl.



A pha wybodaeth y dylai pobl
ei rhannu am eu hanabledd neu
gyflwr iechyd.